

Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru Sir Ddinbych 2020

Rhif 364 - Barddoniaeth Blwyddyn 9 ar y Testun: Be nesa?

Beirniadaeth: Gwenan Prysor

Cystadleuaeth ddiddorol, gyda 37 o gerddi wedi doddi law. Amrywiaeth dda o ymdrin a'r testun 'Be nesa?' gyda

Rhai hirion, rhai byrion, rhai'n darllen yn chwim,
Rhai'n ddoniol, rhai'n seriws, rhai'n odli, rhai ddim!

Nifer o themâu cyfoes ac oesol wrth ofyn be nesa ar ôl gwastraffu a llarpio adnoddau'r byd neu a ôl Brecsit. Eraill yn gofyn be nesa ar ôl colli mam, dewis pynciau TGAU neu fethu ymdopi hefo gofynion bywyd. Mae yma eiriau pwrpasol a chyfleu effeithiol.

Mi gefais bleser yn eu darllen i gyd, ond y tair cerdd sydd wedi dod i'r brig yn fy marn i yw: Yn y trydydd safle, **Telyn Aur**, sy'n barodi reit smala ar 'Hon' ac yn beirniadu newid enwau lleoedd Cymraeg.

Yn ail, mae **Robin Goch**, sy'n gofyn be nesa i fudwr wrth deithio mewn cefn lori i fywyd newydd.

Ond, yr un oedd yn fy nhynnu'n ôl ati hi dro ar ôl tro, am ei bod yn f'anesmwytho ac mor ingol, oedd cerdd **Llewpart Glas**. Mae hon yn cychwyn fel diwrnod ysgol arferol plentyn bach, ond wrth ddarllen ymlaen, fe ganfyddwn ein hunain yn y diwrnod tyngedfennol hwnnw yn 1966 yn Ysgol Gynradd Pantglas Aberfan. Mae'r gwrthgyferbyniad a geir yn y ddwy linell olaf yn llwyddo i ddweud cymaint mor gynnil

Cerrig gwyn yn rhesi syth tawel uwchlaw
Ein pentref du

Da iawn bawb, a diolch i chi i gyd am roi ymgais arni.